Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

22 Hydref 2020

Annwyl Julie

**Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020**

Yn ein cyfarfod ar 12 Hydref 2020, gwnaethom graffu ar **Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020**, gan gyflwyno adroddiad ar yr un diwrnod, a gwnaethom ystyried ymateb Llywodraeth Cymru yn ein cyfarfod ar 19 Hydref.

Roedd y pwynt cyntaf yn ein **hadroddiad** yn datgan nad oedd yn glir inni pam fod angen i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar frys gan dorri'r rheol 21 diwrnod. Er ein bod yn nodi'r ddau ffactor a nodwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru fel rhesymau dros yr oedi cyn gosod y Rheoliadau, nid yw'n glir gennym o hyd pam na ellid bod wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i'r Rheoliadau hyn a'u cyflwyno yn gynharach.

Yn ôl **ymateb** Llywodraeth Cymru:

> "…roedd y Rheoliadau'n ymateb i set o amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym, gan gynnwys y ffaith fod y pandemig ei hun yn esblygu, bod yr ataliad ar achosion adennill meddiant yn y llysoedd yn cael ei ddileu, a diwygiadau Llywodraeth y DU i Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws. Roedd angen ystyried y materion hyn i gyd cyn y gellid gosod y Rheoliadau."

Byddem yn falch o gael eglurder a manylion pellach ynghylch pam roedd y rhesymau a nodwyd gennych yn teilyngu peidio â gwneud y Rheoliadau tan 25 Medi 2020, o ystyried eich bod yn ymwybodol bod y ddeddfwriaeth a oedd mewn grym ar y pryd yn nodi bod yn rhaid i'r cyfnod ar gyfer rhoi hysbysiad hwy i denantiaid ddod i ben ar 30 Medi.

At hynny, ac o gofio bod y bwriad polisi sy'n sail i'r Rheoliadau wedi'i gyhoeddi yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Medi 2020 fel rhan o'ch datganiad ar Dai, Tlodi a Chymunedau, byddem yn ddiolchgar o gael esboniad pam na chafodd y Rheoliadau eu gosod gerbron

y Senedd tan 28 Medi 2020. Er ein bod yn cydnabod y byddai'r amserlen hon dal wedi arwain at dorri'r rheol 21 diwrnod, ac er ein bod yn cydnabod y galw sydd ar gapasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu, mae oedi bron i bythefnos rhwng cyhoeddi'r Rheoliadau a'u gosod yn anfoddhaol, yn enwedig o ran effaith y Rheoliadau ar randdeiliaid perthnasol.

Roedd ein hail bwynt adrodd yn gofyn i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n ystyried bod y Rheoliadau hyn yn cydymffurfio â Phrotocol 1 o Erthygl 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid oedd ymateb Llywodraeth Cymru yn trafod y pwynt hwn; dim ond "Credwn fod y Rheoliadau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol". Nid ydym yn ystyried bod hwn yn ymateb boddhaol, ac felly byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi'ch rhesymau llawn dros ystyried bod y Rheoliadau'n cydymffurfio ag Erthygl 1 o Brotocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English